

Senedd Cymru

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon,
a Chysylltiadau Rhyngwladol

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023–24

Chwefror 2023



Argymhellion

- Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dadansoddiad llawn o'r holl gyllid a ddefnyddiwyd i ariannu gweithgareddau sy'n ymwneud â Chwpan y Byd FIFA 2022. Dylai hyn gynnwys o ba linell gyllideb y daeth y cyllid..... 9
- Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n rhoi cyllid ychwanegol wedi'i dargedu i'r sectorau chwaraeon a diwylliant i helpu lleoliadau a sefydliadau sy'n wynebu'r posibilrwydd o orfod cau ond sydd â dyfodol cynaliadwy y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol, ac ar gyfer iechyd a llesiant y cyhoedd hefyd.....12
- Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariadau chwarterol i'r Pwyllgor ar faterion sy'n codi o ran meysydd sy'n wynebu heriau ariannol yng Nghymru.....13
- Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi pwy yw aelodau bwrdd goruchwylio'r strategaeth ddiwylliannol ac yn ymrwymo i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd a wnaed ar ddatblygu'r strategaeth.....17
- Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad cychwynnol ar ddatblygu strategaeth ddiwylliannol, yn llawn, pan fydd ar gael ym mis Mawrth 2023.....17
- Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cyfanswm y cyllid a ddyrennir i chwaraeon ar draws y llywodraeth, y tu hwnt i'r hyn a ddarperir i Chwaraeon Cymru.....19
- Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad cynhwysfawr o effaith gwariant ar y Gymraeg ar draws portffolios y llywodraeth, ac yn nodi sut y mae'n bwriadu monitro effaith gwariant ar draws meysydd polisi yn y dyfodol.....21
- Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu lefel y cyllid sydd ei angen er mwyn cynnal a gwella cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch cyfrwng Cymraeg mewn cymunedau lleol ledled Cymru o ganlyniad i gostau byw uwch. Dylai'r adolygiad hwn hefyd ystyried effaith gwariant yn ogystal â'r swm a ddarparwyd.....23

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu sut y gall ddarparu cyllid refeniw ychwanegol penodol i gefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd unwaith eu bod wedi'u hagor. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai gefnogi ysgolion ymhellach yn y sector cyfrwng Saesneg i symud ar hyd y continwwm ieithyddol ac ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg..... 24

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y bydd yn rhoi cymorth ariannol ychwanegol i Gomisiynydd y Gymraeg lle bo angen, er enghraifft i gefnogi achosion cyfreithiol costus na ellid eu rhagweld....25

1. Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Diben ein hadroddiad yw llywio'r ddatl ddydd Mawrth 7 Chwefror 2023.

2. Mae ein gwaith craffu wedi'i lywio gan y canlynol:

- Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan y Prif Weinidog, y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, Gweinidog yr Economi, a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip;
- sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, Gweinidog yr Economi, a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip, ddydd Mercher 18 Ionawr 2023;
- tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol y gofynnwyd amdani gan randdeiliaid; a
- safbwyntiau rhanddeiliaid mewn tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid.

3. Cyn i ni gynnal gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft, cytunwyd â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i gydweithio mewn perthynas â ffigurau'r Cyfrifiad ac addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn adlewyrchu'r gorgyffwrdd rhwng cyfrifoldebau a diddordeb y ddau bwyllgor mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

4. Mae ein hadroddiad wedi'i strwythuro yn unol â'r tri phortffolio gweinidogol a'r modd y maent yn cyd-fynd â'n cylch gorchwyl:

- Cysylltiadau Rhyngwladol (y Prif Weinidog)
- Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon (Gweinidog yr Economi, a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip)
- Y Gymraeg (y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg)

5. Cymerodd Jenny Rathbone AS ran yn ein craffu fel eilydd i Carolyn Thomas AS yn ein cyfarfod ddydd Iau 2 Chwefror 2023.

2. Cysylltiadau Rhyngwladol

6. Cawsom ddau gyflwyniad tystiolaeth ysgrifenedig gan y Prif Weinidog ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol. Roedd hyn o ganlyniad i'r ffaith bod y Prif Weinidog wedi penderfynu peidio â rhoi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor oherwydd ei fod wedi cytuno'n flaenorol i fynd i un o gyfarfodydd Pwyllgor y flwyddyn (a fydd yn cyd-daro â chyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar Gysylltiadau Rhyngwladol ym mis Mai 2023). Cawsom y cyflwyniad tystiolaeth ysgrifenedig cyntaf mewn pryd ar gyfer ein cyfarfod ar 11 Ionawr 2023. I liniaru'r ffaith na fyddai'r Prif Weinidog ar gael i graffu ar ei waith ar lafar, fe wnaethom ysgrifennu at y Prif Weinidog ar 13 Ionawr 2023 gyda chwestiynau ychwanegol ar ôl i ni ystyried ei dystiolaeth ysgrifenedig. Cawsom ymateb gan y Prif Weinidog ar 27 Ionawr 2023.

Trosolwg o'r dyraniadau

7. Y dyraniad refeniw ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn 2023-24 yw £8.383 miliwn. Mae hyn yn ostyngiad o £171,000 o gymharu â chyllideb derfynol 2022-23. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog yn nodi bod y gostyngiad hwn yn ganlyniad i'r hyn gafodd eu hailflaenoriaethu gan Lywodraeth Cymru yng nghyllideb yr hydref, a gostyngiadau yn y gyllideb o fewn y Prif Grŵp Gwariant.

8. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom hefyd yn nodi y bydd £100,000 ychwanegol yn cael ei drosglwyddo o'r Llinell Gwariant yn y Gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu Rhyngwladol i 'gyflenwi pwysau chwyddiant ar gyfer prosiect Plannu Coed Mbale.' Bydd hyn yn cael ei wneud fel rhan o'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2023-24, gan arwain at gyllideb ddiwygiedig o £8.283miliwn ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn 2023-24.

Alldro terfynol cyllideb 2022-23

9. Cawsom wybod gan y Prif Weinidog fod gostyngiad o £350,000 yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn, yn y gyllideb ar gyfer 2022-23 i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol. Roedd hyn o ganlyniad i drosglwyddiad y cytunwyd arno o Gysylltiadau Rhyngwladol i Ddatblygu Rhyngwladol 'er mwyn helpu i gyflawni agweddau Cymru ac Affrica ar y Strategaeth Ryngwladol'.

10. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld tanwariant posibl o £524,000 yn y gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol ar gyfer 2022-23. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog yn nodi bod hynny'n ganlyniad i effaith barhaus COVID-19 ar rwydwaith rhyngwladol a gweithgareddau ymgysylltu Llywodraeth Cymru.

11. Gwnaethom ofyn i'r Prif Weinidog pa brosesau rheoli cyllideb sy'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod cyllidebau'n cael eu rheoli'n well yn y dyfodol er mwyn osgoi tanwariant posibl. Cawsom wybod gan y Prif Weinidog fod effaith y pandemig, y cynnydd mewn costau byw a'r rhyfel yn yr Wcrain wedi arwain at ailflaenoriaethu cyllidebau. Amlinellodd y bydd pwysau'n cael eu rheoli drwy'r flwyddyn ym mhob rhan o'r gyllideb. Cadarnhaodd y canlynol:

Rydym wedi gwneud y penderfyniad i dorri £171,000 o'r gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol gan fod modd rheoli'r pwysau yn haws o fewn y gyllideb honno yn hytrach nag o fewn y cyllidebau ar gyfer Costau Cynnal Swyddfeydd Tramor a'u Gweithgareddau.¹

Cwpan y Byd FIFA 2022

12. Cafodd trosglwyddiad pellach yn ystod y flwyddyn ei wneud yn 2022-23, gan gynnwys trosglwyddiad o £100,000 i Brif grŵp Gwariant yr Economi er mwyn cefnogi ymgyrch farchnata Cwpan y Byd FIFA 2022. At hynny, roedd gwariant Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'i gweithgareddau i gefnogi camau i hyrwyddo Cymru yng Nghwpan y Byd FIFA 2022 yn cynnwys £2.5 miliwn tuag at ymgyrch farchnata uwch ac £1.8miliwn tuag at Gronfa Cefnogi Partneriaid Cwpan y Byd.

13. O'r cychwyn cyntaf, nid oedd yn glir i ni o ble y daeth y cyllid hwn. Pan wnaethom holi'r Prif Weinidog am hyn, dywedodd wrthym:

Er mwyn cefnogi ein gweithgareddau yng Nghwpan y Byd FIFA, rhoddwyd £0.31 miliwn o'r gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol i weithgareddau swyddfeydd tramor. Pan gytunwyd ar y gyllideb ar gyfer 2022- 23, nid oeddem yn gwybod y byddai tîm pêl-droed Dynion Cymru yn sicrhau eu lle yng Nghwpan y Byd a blaenoriaethwyd cyllid presennol ar gyfer y gweithgaredd hwnnw yn dilyn iddynt ennill eu lle. Caiff y

¹ [Gohebiaeth gan y Prif Weinidog, 27 Ionawr 2023](#)

dull hyblyg ac ymatebol hwn o ran cyllido ei fabwysiadu ar draws ein holl weithgareddau rhyngwladol.²

14. At hynny, rydym wedi ysgrifennu'n flaenorol at Lywodraeth Cymru ar y gwerthusiad o'i gweithgareddau a'i hymgysylltiad yng Nghwpan y Byd FIFA 2022. Edrychwn ymlaen at gael copi o'r adolygiad a gynhaliwyd yn annibynnol yn ddiweddarach yng ngwanwyn 2023.

Rhaglen Plannu Coed Mbale

15. Fel yr amlinellwyd uchod, gostyngwyd Cyllideb Derfynol 2022-23 ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol gan £350,000 oherwydd trosglwyddiad i'r gyllideb Datblygu Rhyngwladol i gefnogi Rhaglen Plannu Coed Mbale. Mae'r y trosglwyddiad hwn wedi'i weithredu hefyd yn 2023-24 a 2024-25. Mae hyn, i bob pwrpas, yn ymestyn y trosglwyddiadau o £350,000 i ddiwedd y strategaeth ryngwladol yn 2025.

16. Gwnaethom ofyn i'r Prif Weinidog am y rhesymeg dros barhau i ariannu rhaglenni Cymru ac Affrica o'r Strategaeth Ryngwladol. Dywedodd wrthym fod y gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol yn cefnogi'r gyllideb Datblygu Rhyngwladol oherwydd cynsail a osodwyd pan gyhoeddwyd y Strategaeth Ryngwladol. Nodwyd bod hyn yn creu cysylltiad pwysig rhwng gweithgarwch rhyngwladol proffil uchel, a bod y dull wedi bod yn effeithiol hyd yma.

Strategaeth ryngwladol

17. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Prif Weinidog wrthym fod dyraniad o £2.849miliwn yn cael ei wneud i'r gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol, y dyrennir £1.64 miliwn ohono i gynlluniau gweithredu'r strategaeth ryngwladol. Ni chawsom unrhyw fanylion am yr allbynnau a'r canlyniadau a fydd yn cael eu cyflawni yn y flwyddyn ariannol nesaf o dan y cynlluniau gweithredu.

18. At hynny, dywedodd wrthym y bydd y £1.21miliwn sy'n weddill o'r gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithgarwch trawsbynciol sy'n cefnogi amcanion cyffredinol y Llywodraeth o ran Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Strategaeth Ryngwladol, yn hytrach na bod yn gysylltiedig â chynllun gweithredu penodol.

19. Gwnaethom ofyn i'r Prif Weinidog i amlinellu'r modd y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu, pa feini prawf y dylid eu bodloni i gael cyllid, a sut y bydd yn

² [Gohebiaeth gan y Prif Weinidog, 27 Ionawr 2023](#)

sicrhau gwerth am arian. Cawsom wybod ganddo fod gwaith yn y maes hwn yn cael ei adolygu drwy gydol y flwyddyn a bod hynny hefyd yn cynnwys rheoli cyllidebau ac ailflaenoriaethu lle bo angen. Dywedodd: *“Rydym yn hyderus y byddwn yn gallu parhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau er gwaethaf y toriadau ariannol a phwysau yn sgil chwyddiant.”*³

20. At hynny, dywedodd y Prif Weinidog wrthym fod gan swyddfeydd tramor fynediad at y Gyllideb Gweithgarwch Tramor a oedd yn rheoli ar sail ranbarthol. Cadarnhaodd fod y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau arferol. Ychwanegodd, lle mae yna fentrau neu brosiectau penodol a fydd yn cael effaith ar strategaeth neu gynlluniau gweithredu: *“gall y tîm Cysylltiadau Rhyngwladol yng Nghymru ystyried cymeradwyo cais am gyllid o'r gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol.”*⁴ Cadarnhaodd mai timau perthnasol sy'n gyfrifol am sicrhau gwerth am arian.

21. At hynny, gwnaethom ofyn am gopiau o'r cynlluniau cyflawni adrannol perthnasol ar gyfer 2023-24 sy'n cael eu hariannu o'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol, er enghraifft pob swyddfa ryngwladol. Fe'n hysbyswyd y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu: *“ein cynlluniau cyflawni manwl ar gyfer 2023/24 sy'n ymwneud â Chysylltiadau Rhyngwladol a'r swyddfeydd tramor. Bydd y rhain yn ddogfennau mewnol a fydd yn parhau'n hyblyg er mwyn ymateb i ddigwyddiadau a chyfleoedd byd-eang.”*⁵

Ein barn ni

22. Rydym yn derbyn – fel llawer o linellau cyllideb – nad yw'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol wedi'i diogelu rhag heriau a gyflwynir gan chwyddiant, cynnydd mewn costau byw na'r rhyfel yn Wcráin. Er gwaethaf hyn, cawsom ein siomi, braidd, gan rai o ymatebion y Prif Weinidog i'n cwestiynau.

23. O ran cyllid gweithgarwch sy'n ymwneud â Chwpan y Byd FIFA 2022, byddem wedi croesawu dadansoddiad pellach o gyfanswm y cyllid ar gyfer holl weithgarwch y Llywodraeth. Yn sgil hynny, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu cyn gynted â phosibl. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad allanol o weithgarwch y Llywodraeth yn ystod Cwpan y Byd ac yn bwriadu ystyried ei ganfyddiadau pan gaiff ei gyhoeddi.

³ [Gohebiaeth gan y Prif Weinidog, 27 Ionawr 2023](#)

⁴ [Gohebiaeth gan y Prif Weinidog, 27 Ionawr 2023](#)

⁵ [Gohebiaeth gan y Prif Weinidog, 27 Ionawr 2023](#)

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dadansoddiad llawn o'r holl gyllid a ddefnyddiwyd i ariannu gweithgareddau sy'n ymwneud â Chwpan y Byd FIFA 2022. Dylai hyn gynnwys o ba linell gyllideb y daeth y cyllid.

24. At hynny, cawsom ein siomi gan amharodrwydd y Prif Weinidog i ymrwymo i rannu cynlluniau cyflawni adrannol perthnasol â ni. Y rheswm dros ein cais yw er mwyn inni feddu ar well dealltwriaeth o waith Llywodraeth Cymru yn y maes pwysig hwn; maes gwaith nad yw'n aml mor amlwg ag adrannau eraill, er enghraifft addysg ac iechyd. At hynny, nid ydym wedi cael manylion y canlyniadau na'r allbynnau a fydd yn cael eu cyflawni drwy ddyraniadau'r Gyllideb Ddrafft i gefnogi'r strategaeth ryngwladol a'r cynlluniau gweithredu, er mwyn i'r Pwyllgor a rhanddeiliaid gael sicrwydd y bydd gwariant yn y maes hwn wedi'i dargedu, yn effeithiol ac yn darparu gwerth am arian. Byddem yn annog y Prif Weinidog i ailystyried hyn gan bod gwerth i wneud hynny, yn ein barn ni.

25. Mewn perthynas â'r gyllideb gweithgareddau tramor, rydym yn nodi y bydd swyddogion yn y tîm cysylltiadau rhyngwladol yn gyfrifol am sicrhau bod ceisiadau yn ystod y flwyddyn i'r gronfa hon gan swyddfeydd tramor yn darparu gwerth am arian. O ystyried pwysau chwyddiant a'r gostyngiadau yng nghyllideb yr adran hon, bydd y gallu i wneud yn gwbl siŵr bod pob gweithgaredd yn rhoi gwerth am arian ac yn cyflawni canlyniadau sy'n cael effaith yn bwysicach nag erioed. Byddwn yn dychwelyd i fonitro gwariant a gweithgareddau yn ystod y flwyddyn o'r gyllideb hon.

3. Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon

26. Mae elfennau Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon ein cylch gorchwyl yn cwmpasu tri o feysydd gwariant Llywodraeth Cymru: Diwylliant a'r celfyddydau, chwaraeon a gweithgarwch corfforol, a'r amgylchedd hanesyddol.

Trosolwg o'r dyraniadau

27. Mae maes Rhaglen Wariant Diwylliant a'r Celfyddydau yn cynnwys cyllid ar gyfer y canlynol: Cyngor Celfyddydau Cymru; Amgueddfa Cymru; y Llyfrgell Genedlaethol; cymorth ar gyfer diwylliant a chwaraeon lleol a Chymru Greadigol (is-adran diwydiannau creadigol Llywodraeth Cymru). O gymharu â'r Gyllideb derfynol ar gyfer 2022-2023, mae cyllid refeniw ar gyfer y Maes Rhaglen Wariant hwn yn cynyddu o £84.6 miliwn i £89.3 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24 (cynnydd o 6 y cant mewn termau arian parod). Dros yr un cyfnod, mae'r cyllid cyfalaf yn cynyddu o £24.1 miliwn i £33.9 miliwn (cynnydd 40 y cant mewn termau arian parod).

28. Mae maes Rhaglen Wariant Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol yn cynnwys cyllid ar gyfer Chwaraeon Cymru. O gymharu â'r Gyllideb derfynol ar gyfer 2022-2023, mae cyllid refeniw ar gyfer y Maes Rhaglen Wariant hwn yn cynyddu o £22.7 miliwn i £23.8 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24 (cynnydd o 5 y cant mewn termau arian parod). Dros yr un cyfnod, mae cyllid cyfalaf yn parhau i fod yn £7.8 miliwn.

29. Caiff yr Amgylchedd Hanesyddol ei ariannu yn bennaf drwy Cadw (adran treftadaeth Llywodraeth Cymru). Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. O gymharu â'r Gyllideb derfynol ar gyfer 2022-2023, mae cyllid refeniw ar gyfer y Maes Rhaglen Wariant hwn yn cynyddu o £16.2 miliwn i £17.1 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24 (cynnydd o 6 y cant mewn termau arian parod). Dros yr un cyfnod, mae cyllid cyfalaf yn gostwng o £11.3 miliwn i £10.3 miliwn (gostyngiad o y cant mewn termau arian parod).

Cefnogaeth ar gyfer costau cynyddol

30. Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ar effaith costau cynyddol ar ddiwylliant a chwaraeon yng Nghymru. Ar adeg ein ymholiad, roedd y sectorau diwylliant a chwaraeon yn dal i wella o effaith pandemig COVID-19 yn

ogystal ag ymdopi ag effaith costau uwch. Ers hynny, mae chwyddiant wedi parhau'n uchel.

31. Mae gweithredwyr yn y sectorau hyn yn cael eu gwasgu o'r ddwy ochr. Mae llai o arian yn dod iddynt gan gwsmeriaid (sy'n cael eu heffeithio eu hunain gan y cynnydd mewn costau byw), a mwy o arian yn cael ei wario ar gyfleustodau a chostau eraill. Roedd ein hadroddiad yn argymhell cyllid ychwanegol wedi'i dargedu i helpu lleoliadau a sefydliadau sy'n wynebu gorfod cau ond sydd â dyfodol cynaliadwy y tu hwnt i'r argyfwng sydd ohono.

32. Yn ei hymateb i'n hadroddiad, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. Amlygodd ei bod wedi darparu £3.75miliwn ychwanegol ar gyfer diwylliant a chwaraeon yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 er mwyn helpu gydag "effeithiau aruthrol chwyddiant ar gostau cyfleustodau a chostau byw cyrff hyd braich a sefydliadau yn y sector lleol". Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 yn cynnwys mwy o gyllid refeniw o rhwng tri a saith y cant ar gyfer cyrff diwylliant a chwaraeon a ariennir gan Lywodraeth Cymru (yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yw'r unig gorff sydd â'i gyllid wedi'i dorri). Fodd bynnag, rydym o'r farn mai ffracsiwn yw hwn o'r cyllid y gofynnwyd amdano (yn ystod ein hymchwiliad galwodd Cyngor Celfyddydau Cymru am gronfa newydd o £5-10 miliwn ar gyfer y celfyddydau yn unig) a'r hyn sydd ei angen. Rydym yn meddu ar y farn hon yn enwedig gan y bydd llawer o'r cynnydd hwn yn cael ei erydu gan gynnydd yng nghyflogau staff a lefelau uchel o chwyddiant.

33. At hynny, rydym yn ymwybodol o'r broblem ddifrifol sy'n wynebu pyllau nofio. Ar adeg ysgrifennu, un o ddeisebau'r Senedd sydd wedi ennyn y gefnogaeth bennaf yw honno sy'n galw ar i Lywodraeth Cymru "ddiogelu canolfannau hamdden a phyllau nofio rhag gorfod cau yn ystod yr argyfwng ynni presennol." Daw hyn yn dilyn newyddion bod rhai pyllau ym Mhowys dan fygythiad o gau y gaeaf hwn, er bod y cyngor wedi rhoi'r gorau i'r cynnig hwn ers hynny.

34. O ganlyniad, fe wnaethom ofyn y Weinidogion nodi pa drafodaethau y maen nhw wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch caniatáu i byllau nofio gael cymorth a rhyddhad drwy'r Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni i fusnesau a chwsmeriaid annomestig eraill. Cawsom wybod fod Llywodraeth Cymru yn siomedig bod pyllau nofio wedi'u heithrio o'r rhestr o fusnesau ynni-ddwys sy'n gymwys i gael cymorth. Dywedodd y Gweinidogion wrthym eu bod wedi cynnwys sylwadau am byllau nofio yn eu hymateb i'r ymgynghoriad ar y cynllun. Fe wnaethant ychwanegu:

gwnaeth swyddogion gyfarfod â chynrychiolwyr o'r sector, gan gynnwys Chwaraeon Cymru, Cymdeithas Chwaraeon Cymru a Nofio Cymru i gasglu tystiolaeth bellach. Gwnaethpwyd hyn er mwyn cyflwyno'r achos cryfaf posibl i Lywodraeth y DU i sicrhau bod canolfannau hamdden a phyllau nofio yn cael y gefnogaeth honno.⁶

35. O ddwyn y cyfan i ystyriaeth, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu faint o arian sydd ar gael i gefnogi'r sectorau diwylliant a chwaraeon yn ystod y cyfnod caled hwn. Cafodd Llywodraeth Cymru ganmoliaeth haeddiannol am fuddsoddi dros £140 miliwn yn y sectorau hyn i sicrhau eu bod yn goroesi yn ystod pandemig COVID-19. Mae angen cymorth pellach, erbyn hyn, i roi hwb i'r sectorau hyn, ac i sicrhau nad yw'r buddsoddiad cychwynnol hwn yn cael ei wastraffu.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n rhoi cyllid ychwanegol wedi'i dargedu i'r sectorau chwaraeon a diwylliant i helpu lleoliadau a sefydliadau sy'n wynebu'r posibilrwydd o orfod cau ond sydd â dyfodol cynaliadwy y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol, ac ar gyfer iechyd a llesiant y cyhoedd hefyd.

Diogelu buddsoddiadau presennol mewn ardaloedd difreintiedig

36. Fel Pwyllgor, un o'n **gwerthoedd** yw gweithio i sicrhau mynediad cyfartal a chyfranogiad i ddiwylliant, y celfyddydau, treftadaeth a chwaraeon i bawb. O ystyried effaith costau sy'n cynyddu, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru pa ystyriaeth a roddwyd i effaith costau uwch ar ddarparu gwasanaethau anstatudol mewn chwaraeon a diwylliant gan lywodraeth leol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

"They are non-statutory, but we still have an expectation around what a local authority needs to do to deliver on its well-being goals and on the well-being goals of the Welsh Government... I think it is worth setting out that we have, for non-statutory services, allocated considerable amounts extra in a number of areas."⁷

⁶ [Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip, 25 Ionawr 2023](#)

⁷ [Cyfarfod y Pwyllgor, 18 Ionawr 2023, paragraff 37.](#)

37. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym hefyd nad yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw fygythiadau sydd ar fin digwydd i wasanaethau oherwydd y setliadau gwell na'r disgwyl ar gyfer llywodraeth leol. At hynny, cawsom wybod fod Llywodraeth Cymru yn cadw llygad barcud ar ddatblygiadau ac y bydd yn parhau i wneud hynny, a'i bod ar hyn o bryd yn gallu cadw pethau ar gêl cymharol wastad.⁸

38. Rydym yn deall rhai o'r penderfyniadau anodd y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru eu gwneud yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Fodd bynnag, o ystyried pa mor ansicr yw'r sefyllfa ar hyn o bryd, byddem yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad rheolaidd i'r Pwyllgor ar yr heriau sy'n codi yn y sector. Byddai hynny'n cynnwys amlinelliad o ba leoliadau neu sefydliadau sy'n cael trafferthion ariannol, yn ogystal â dadansoddiad mwy cyffredinol o iechyd ariannol y sectorau. Diben hynny yw er mwyn ein cadw ni a rhanddeiliaid eraill i'r funud ynghylch y materion, yn ogystal ag awgrymu ble y dylid cynnal ymyriadau, ac ym mha fodd.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariadau chwarterol i'r Pwyllgor ar faterion sy'n codi o ran meysydd sy'n wynebu heriau ariannol yng Nghymru.

Diwylliant a'r Celfyddydau

Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru

39. Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynyddu cyllid refeniw o £32.4miliwn yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 i £33.3miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24. Mae hyn yn gynydd net o 3 y cant, gan gynnwys toriad o 1.1 y cant i Gyngor y Celfyddydau a chyllid ychwanegol o £500,000 i helpu sefydliadau celfyddydol gyda chostau byw. Mae cyllid cyfalaf Cyngor y Celfyddydau yn parhau i fod yn £400,000 dros yr un cyfnod.

40. Yn ein hymchwiliad ar gostau cynyddol yn ystod hydref 2022, fe'n hysbyswyd gan Brif Weithredwr dros dro Cyngor y Celfyddydau ar y pryd, Michael Elliott, fod angen buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i sefydlu cronfa £5-10 miliwn, dim ond ar gyfer y celfyddydau, bydd hynny'n helpu i sefydlogi cwmnïau drwy'r cyfnod tyngedfennol⁹.

⁸ Cyfarfod y Pwyllgor, 18 Ionawr 2023, paragraff 45

⁹ Cyfarfod y Pwyllgor, 6 Hydref 2022, paragraff 189

41. Yng ngoleuni setliad y Gyllideb Ddrafft, gofynnwyd i Gyngor y Celfyddydau pa asesiad yr oedd wedi'i wneud o'r anghenion ychwanegol ar gyfer y sector diwylliant a'r celfyddydau yng Nghymru. Dywedodd Cyngor y Celfyddydau wrthym:

“Er ein bod yn croesawu'r arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant penodol, mae effaith yr agweddau uchod yn rhoi pwysau ariannol sylweddol ar y sector”

[...]

Yn ddi-os bydd angen rhagor o gefnogaeth ar y sector ar hyn o bryd ac yn ystod ein Hadolygiad Buddsoddi, ond cydnabyddwn y bydd y £2.5 miliwn ychwanegol yn mynd rywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

Ond rydym hefyd yn gwybod o'r gorau fod y sefyllfa bresennol yn gyfnewidiol. Mae nifer o'n partneriaid, gan gynnwys yr awdurdodau lleol, hefyd wedi cael gostyngiadau sylweddol yn eu cyllideb ar yr un pryd ag y wynebant gostau cynyddol. Mae'n debyg y bydd yn cymryd amser i'r sefyllfa ymsefydlogi a gwella. Felly croesawn yn frwd unrhyw arian ychwanegol y gellir ei roi i'r sector.”¹⁰

42. Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Amgueddfa Cymru yn cynyddu o £25.1 miliwn yng nghyllideb derfynol 2022-23 i £26.9 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24. Mae hwn yn gynydd net o 7 y cant, er ei fod yn cynnwys toriad o 1.1 y cant i refeniw craidd yr Amgueddfa. Dros yr un cyfnod cynyddodd cyllid cyfalaf o £4.5 miliwn i £5 miliwn, sef cynnydd o 11 y cant.

43. Gwnaethom ofyn i Amgueddfa Cymru gadarnhau a yw'r cyllid ychwanegol hwn yn ddigon i gyflawni unrhyw waith sy'n angenrheidiol i ddiogelu trysorau cenedlaethol ymhellach o fewn casgliadau'r Amgueddfa. Cawsom ar ddeall ganddynt y bydd cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Ddrafft yn helpu gyda heriau chwyddiant uniongyrchol sy'n ymwneud â chyflogau a chostau ynni. Ychwanegwyd y dylai hynny ddarparu cyllid sefydlog a digonol am ddwy flynedd a chyda rheolaeth ofalus ar gostau, dylent allu cyflwyno cyllidebau cytbwys tan fis Mawrth 2025. Fodd bynnag, gwnaethant ychwanegu:

¹⁰ Llythyr oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru, 25 Ionawr 2023

Bydd yr Amgueddfa wastad yn croesawu cefnogaeth ychwanegol, yn enwedig o ran Cyllid Cyfalaf am fod cost ein hól-restr o waith cynnal a chadw ar gyfer ein hystâd dreftadaeth fawr wastad yn uwch na'r cyllid sydd ar gael, ond rydym yn realistig o ran yr hyn sy'n fforddiadwy.¹¹

44. Mae cyllid refeniw ar gyfer y Llyfrgell Genedlaethol yn cynyddu o £11 miliwn yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 i £11.8 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24. Mae hwn yn gynydd net o 7 y cant, er ei fod yn cynnwys toriad o 1.1 y cant i refeniw craidd y Llyfrgell. Mae cyllid cyfalaf ar gyfer 2023-24 wedi'i leihau 20 y cant o £2.5 miliwn i £2 filiwn.

45. Mewn tystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer ein ymholiad i gostau cynyddol, dywedodd y Llyfrgell Genedlaethol y byddai ei gwariant yn 2022-23 fwy na thebyg yn fwy na'r cyllid a gafodd gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Llyfrgell Genedlaethol wrthym fod "*risg difrifol iawn o hyd i'r casgliadau ac mae hynny, yn ein barn ni, yn hollol annerbyniol heb gyllid ychwanegol.*"

46. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym:

"Mae'r Llyfrgell yn gwneud yn dda o ran denu rhoddion a chymynroddion elusennol ond mae'r targed cynhyrchu incwm masnachol yn heriol, gyda llai o opsiynau ar y safle ar gyfer cynhyrchu refeniw o gymharu â'r Amgueddfa sydd â siopau a'i chaffis ar saith safle."

47. Yn yr un modd ag Amgueddfa Cymru, gofynnwyd i'r Llyfrgell Genedlaethol a yw'r setliad cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn ddigon i warchod trysorau cenedlaethol o fewn casgliadau'r Llyfrgell. Cawsom wybod ganddynt – o ran y risg flaenorol a amlygwyd – bod grant o £500,000 gan Lywodraeth Cymru wedi lliniaru methiannau damperi tân a mwg yn yr adeilad. Fodd bynnag, ychwanegodd y Llyfrgell Genedlaethol:

continued reduction in capital funding will only create further and serious risks to the national collections. Therefore, it is vital that Welsh Government provides the additional urgently needed capital funding requested by the National Library as expeditiously as possible.¹²

¹¹ Llythyr oddi wrth Amgueddfa Genedlaethol Cymru, 25 Ionawr 2023

¹² Llythyr oddi wrth Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 19 Ionawr 2023

48. Mae sylwadau'r Llyfrgell Genedlaethol o ran y risg i'r casgliadau cenedlaethol yn peri pryder inni. Yn yr un modd, er gwaethaf ymateb yr Amgueddfa Genedlaethol, rydym yn pryderu y gallai fod risg i gasgliadau'r sefydliad hwnnw. Fel yr amlinellwyd yn ein hadroddiad ar Gyllideb y llynedd, mae bygythiad difrifol posibl i rai casgliadau pwysig. Mae'r ddau sefydliad hwn o werth diwylliannol sylweddol i'n cenedl ac rydym o'r farn y dylid ystyried sut y darperir cyllid er mwyn i'r sefydliadau hyn reoli eu trysorau cenedlaethol.

Oriel Gelf Gyfoes Cymru

49. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod cyllid ar gyfer 2023-24 ar gyfer yr Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol yn amodol ar achos busnes amlinellol. At hynny, cawsom wybod fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda nifer o orielau i fod yn rhan o'r model gwasgaredig yn ogystal ag archwilio posibiliadau ar gyfer safle angori.

50. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog nad yw unrhyw oedi posibl o amgylch yr oriel gelf gyfoes genedlaethol yn gysylltiedig â chyllid. Maent yn gysylltiedig â chynhyrchu'r achos busnes ac agweddau ymarferol.¹³

51. Er ein bod yn croesawu'r diweddariad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, rydym yn bryderus ynghylch faint o amser y mae'r prosiect yn ei gymryd i symud ymlaen. Fel y cyfryw, rydym wedi cytuno i ddychwelyd at y mater a chynnal adolygiad o gynnydd yr oriel mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cymru Greadigol

52. Mae cyllid refeniw ar gyfer Cymru Greadigol yn cynyddu o £7 miliwn yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 i £7.1 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24. Mae hwn yn gynnydd net o 1 y cant, er ei fod yn cynnwys toriad o 1.1% i refeniw craidd Cymru Greadigol. Dros yr un cyfnod mae cyllid cyfalaf yn parhau i fod yn £5 miliwn.

53. Mae dyraniadau Cymru Greadigol yn cynnwys y rheini ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru. Yn ôl dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, yn 2023-24 mae cyllideb flynyddol o £3.960miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer parhau i ariannu mentrau Cyngor Llyfrau Cymru. Mae'r ffigwr yr un fath ag yr oedd yn 2020-21.

¹³ Cyfarfod y Pwyllgor, 18 Ionawr 2023, paragraff 80

54. Ym mis Medi 2022, [cyhoeddodd](#) Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu sgiliau creadigol, wedi'i ategu gan Gronfa Sgiliau Creadigol gwerth £1 filiwn.

Strategaeth ddiwylliannol

55. Roeddem yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu strategaeth ddiwylliannol. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhad o benodiad i wneud y gwaith ymgysylltu ynghylch datblygiad y strategaeth, yn ogystal â phenodi panel goruchwylio. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fel a ganlyn:

*"I think we're looking for an initial report in March of this year, from the one-to-one discussions that are going to be going on with our various stakeholders, with a view to that strategy hopefully being developed by the end of 2023."*¹⁴

56. Rydym yn ymwybodol bod diddordeb sylweddol yn y strategaeth ddiwylliannol hir-ddisgwyliedig. Er mwyn rhoi sicrwydd i bawb sydd â diddordeb yn y gwaith hwn, rydym o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru roi diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud. Mae hynny'n cynnwys sicrhau bod aelodaeth y bwrdd goruchwylio ar gael i'r cyhoedd a sicrhau bod yr adroddiad sydd i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2023 yn cael ei gyhoeddi'n llawn. Bydd hyn yn galluogi pawb sydd â diddordeb i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddilyniant y strategaeth.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi pwy yw aelodau bwrdd goruchwylio'r strategaeth ddiwylliannol ac yn ymrwmo i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd a wnaed ar ddatblygu'r strategaeth.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hadroddiad cychwynnol ar ddatblygu strategaeth ddiwylliannol, yn llawn, pan fydd ar gael ym mis Mawrth 2023.

Chwaraeon

57. O gymharu â Chyllideb Derfynol 2022-2023, mae cyllid refeniw ar gyfer Chwaraeon Cymru yn cynyddu o £22.7 miliwn i £23.8 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23. Mae hyn yn gynydd net o 5 y cant, er ei fod yn cynnwys toriad o 1.1% i refeniw craidd Chwaraeon Cymru. Dros yr un cyfnod, mae cyllid cyfalaf yn parhau i fod yn £7.8 miliwn.

¹⁴ [Cyfarfod y Pwyllgor, 18 Ionawr 2023, paragraff 49](#)

58. Yn ein hadroddiad ar chwaraeon a gweithgaredd corfforol mewn ardaloedd difreintiedig – a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022 – fe wnaethom awgrymu bod “Llywodraeth Cymru yn cynyddu’n sylweddol y cyllid sydd ar gael ar gyfer mynd i’r afael â chyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig”. Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn. Mae'n amlwg o hyn yn setliad y Gyllideb Ddrafft nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu newid ei hymagwedd ar hyn ychwaith ac nid yw hyn yn gliriach, ymhellach, yn setliad y Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn nesaf.

59. Ym mis Rhagfyr 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru Uwchgynhadledd Chwaraeon, a oedd yn cynnwys prif anerchiad gan Per Tøien, uwch gynghorydd i Bwyllgor Olympaidd a Pharalympaidd Norwy a’r Cydffederasiwn Chwaraeon. Fe wnaeth y Dirprwy Weinidog ddweud wedyn:

“Neges allweddol y siaradwr gwadd o Norwy [...] oedd bod system chwaraeon lwyddiannus ei wlad yn seiliedig ar yr egwyddor o weithio gyda’i gilydd.”

60. Roedd cyllid ar gyfer Ffederasiwn Chwaraeon Norwy yn £275 miliwn– neu £51 y pen – yn 2022. Mae hyn tua theirgwaith y cyllid y pen ar gyfer Chwaraeon Cymru, sef £18 (£40.1 miliwn gan Lywodraeth Cymru a £16.5 miliwn gan y Loteri Genedlaethol) yn 2021-22. Yn flaenorol, fe wnaeth Matthew Williams o Gymdeithas Chwaraeon Cymru ddweud wrth y Pwyllgor, *“It’s really important to emphasise that they spend between five and 10 times the amount that we do on sport. Wales does very, very, very well on participation and on elite performance off a relatively small slice of investment”*.

61. Yn yr un modd ag y gwnaeth y llynedd, dywedodd Llywodraeth Cymru mewn tystiolaeth ysgrifenedig, “gall chwaraeon fod yn offeryn iechyd ataliol mwyaf effeithiol y wlad ond mae angen mwy o flaenoriaethu traws-sector i greu'r newidiadau cynaliadwy hirdymor mewn cyfranogiad.”

62. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor fod ffaith ei fod yn nhystiolaeth y llynedd a’r flwyddyn hon yn golygu ei fod dal yr un mor bwysig ag yr oedd y llynedd. Nid oedd yn glir os mwy o flaenoriaethu traws-sector wedi digwydd ers y gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft y flwyddyn flaenorol. O ystyried y diffyg hwn mewn eglurder, rydym o’r farn y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi faint o gyllid sy’n mynd i chwaraeon y tu hwnt i’r hyn a ddarperir i Chwaraeon Cymru.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cyfanswm y cyllid a ddyrennir i chwaraeon ar draws y llywodraeth, y tu hwnt i'r hyn a ddarperir i Chwaraeon Cymru.

Yr amgylchedd hanesyddol

63. Mae cyllid refeniw ar gyfer Cadw yn cynyddu o £8.3 miliwn yng Nghyllideb Derfynol 2023-24 i £9.2 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24. Mae hyn yn gynydd o 11 y cant. Dros yr un cyfnod mae cyllid cyfalaf yn parhau i fod yn £10 miliwn.

64. Mae cyllid refeniw ar gyfer yr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn gostwng o £594,000 yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 i £587,000 yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24. Mae hyn yn ostyngiad o 1 y cant. Dros yr un cyfnod mae cyllid cyfalaf yn gostwng o £1.2 miliwn i £200,000, sy'n ostyngiad o 83 y cant.

65. Mae cyllid refeniw ar gyfer y Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn cynyddu o £1.65 miliwn yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 i £1.73 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24. Mae hyn yn gynydd o 5 y cant. Dros yr un cyfnod mae cyllid cyfalaf yn parhau i fod yn £50,000.

Ein barn ni

66. Caiff ei ddeall yn helaeth y gall byw bywydau iachach a mwy egniol yn gorfforol gael effaith hynod fuddiol ar fesurau eraill fel disgwyliad oes, cyfleoedd economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad addysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod hyn ei hun pan fydd yn cyfeirio at bwysigrwydd yr agenda iechyd ataliol. Fodd bynnag, rydym yn poeni am yr effaith y bydd costau uwch yn ei chael ar allu sefydliadau diwylliannol a chwaraeon yng Nghymru i barhau i ddarparu gwasanaethau ar eu lefel bresennol.

67. Gwyddom fod cynnydd mewn costau byw yn gwaethygu bylchau cyfranogiad a dyfodd yn ystod y pandemig COVID-19. Mae toriadau pellach mewn gwasanaethau yn fwyaf tebygol o daro'r rheini y byddent fwyaf ar eu hennill o'u cael. Er enghraifft, pe bai pyllau nofio yn lleihau amseroedd agor neu'n gostwng tymheredd y pyllau, efallai y byddai plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael amser anoddach i gael mynediad at weithgaredd sy'n debygol o fod o fudd iddynt. At hynny, gall sefydliadau diwylliannol a chwaraeon ymateb i bwysau costau drwy godi mwy o dâl; bydd hyn yn lleihau cyfranogiad ymhellach, ac yn taro ardaloedd difreintiedig waethaf. Rydym o'r farn y bydd hyn yn gwaethygu anghydraddoldebau iechyd yn sylweddol.

68. Rydym yn deall yr hinsawdd ariannol anodd y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu ynddi. Er ein bod yn gwneud nifer o argymhellion ariannu yn yr adroddiad hwn, rydym yn gwerthfawrogi na ellir ariannu popeth. Fodd bynnag, rydym o'r farn ei bod yn bwysig iawn cael nifer o ymyriadau wedi'u targedu. Rydym hefyd o'r farn mai'r rheini o gefndiroedd difreintiedig sydd fwyaf mewn perygl yn hyn oll. Yn sgil hynny, dyma ymbil ar Lywodraeth Cymru i ailedrych ar rai o'u penderfyniadau, fel bod y rheini sydd fwyaf angen cymorth yn gallu parhau i gael mynediad at wasanaethau a all, yn eu tro, gael effaith ar nifer o ddangosyddion cyfle bywyd. Byddwn, felly, yn cadw llygad dros y flwyddyn i ddod ar wariant cymharol ar ddiwylliant a chwaraeon rhwng ardaloedd mwy cefnog a llai cefnog Cymru.

4. Y Gymraeg

Trosolwg o'r dyraniadau

69. Mae'r Gymraeg yn faes polisi trawsbynciol, gyda gwariant yn aml wedi'i wreiddio ar draws portffolios Gweinidogion. Yn ei bapur tystiolaeth, cawsom wybod gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg mai'r nod yw prif ffrydio *Cymraeg 2050* i holl feysydd portffolio Llywodraeth Cymru'. Yn ystod ein sesiwn graffu gyda'r Gweinidog, dywedodd wrthym, "gall dim un Gweinidog y Gymraeg lwyddo i wneud y lefel o gynnydd sydd angen heb fod gyda chi gydweithredu ar draws y Llywodraeth yn gyfan gwbl". At hynny, nododd y Gweinidog hefyd fod gwaith ar y gweill i "wella dealltwriaeth"¹⁵ o effaith penderfyniadau gwariant ar y Gymraeg mewn gwahanol feysydd polisi.

70. Er nad yw'n bosibl cynnal gwaith craffu ar bob dyraniad cyllid ar gyfer y Gymraeg, mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 yn cynnwys tri Llinell Wariant yn y Gyllideb sy'n benodol i'r Gymraeg. Ceir Llinellau Gwariant eraill hefyd lle gellir craffu ar wariant sylweddol ar y Gymraeg, megis y Llinell Wariant Datblygu a Chefnogi Athrawon a'r Llinell Wariant Seilwaith Addysg sy'n rhan o gyfrifoldebau cyllidebol y Gweinidog.

71. Mae Cyllideb Ddrafft 2023-24 yn dyrannu cyfanswm o £46.7 miliwn mewn refeniw i gefnogi gwariant penodol ar y Gymraeg. Dyma gynnydd o £3.1miliwn ar Gyllideb Derfynol 2022-23. Roedd y cynnydd hwn yn ganlyniad y Cytundeb Cydweithredu rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru. Fel y cyfryw, disgwylir i wariant dangosol gynyddu £3.45 miliwn pellach yn 2024-25. Bydd cyfanswm y dyraniadau adnoddau ar gyfer gwariant penodol ar y Gymraeg – gan gynnwys cronfeydd cyfalaf – yn cyrraedd £50.15 miliwn erbyn 2024-25.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad cynhwysfawr o effaith gwariant ar y Gymraeg ar draws portffolios y Llywodraeth, ac yn nodi sut y mae'n bwriadu monitro effaith gwariant ar draws meysydd polisi yn y dyfodol.

Effaith chwyddiant ar sefydliadau allanol

72. Fel llawer, rydym yn pryderu am effaith chwyddiant ar gyllidebau presennol. Gwaetha'r modd, nid yw sefydliadau a ariennir yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn ddiogel rhag hyn.

¹⁵ Cyfarfod y Pwyllgor, 18 Ionawr 2023, paragraff 161

Rydym yn pryderu – o ystyried y pwysau chwyddiant presennol – y bydd yn rhaid i sefydliadau gyflawni llai nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Gallai hyn, yn ei dro, leihau'r cyfleoedd i lawer sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg a defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Derbyniodd y Gweinidog fod heriau, gan nodi:

“Felly, mae rhai o'r partneriaid rŷn ni'n eu hariannu wedi cael cyllideb fflat dros gyfnod yn ddiweddar, ac mae hynny wrth gwrs am wasgedd ariannol, ac wrth gwrs mae hynny'n eu galluogi nhw i wario llai ar yr initiatives maen nhw'n eu gwneud.”¹⁶”

73. Cawsom wybod gan y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r rhaglen grantiau i weld a yw'n cyd-fynd ag amcanion Cymraeg 2050. Dywedodd fod a wnelo hyn gymaint â faint o gyllid a ddarperir yn ogystal â chreu mwy o hyblygrwydd a defnyddio grantiau tymor hwy i gynllunio'n effeithiol.

74. At hynny, cawsom wybod gan y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru, drwy ei gwaith gyda'r mentrau iaith wedi bod *“yn pwysleisio'r flaenoriaeth o ymrymuso cymunedol—hynny yw, nid jest darparu eu hunain, ond cydweithio â mudiadau eraill.”*¹⁷ Yn ogystal â hyn, soniodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Cwmpas (Canolfan Cydweithredol Cymru, gynt) ar y mater hwn, gan sefydlu cronfa newydd i helpu i ddatblygu cwmnïau cydweithredol.

75. Nid oeddem yn gyfarwydd â'r datblygiadau o amgylch y gronfa newydd gyda Cwmpas, felly gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog yn dilyn ein sesiwn graffu i ofyn am ragor o wybodaeth am hyn. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod £150,000 yn cael ei ddyrannu i Gwmpas ar gyfer rhoi cynllun (Perthyn) **'Cymraeg: mae'n perthyn i'n cymunedau'** ar waith. At hynny, nododd fod £250,000 ychwanegol yn:

adnabuwyd yn aml iawn mai cronfeydd cyllidol bach sydd ei angen er mwyn meithrin gallu yn lleol. Mae'r cyllid grant hwn yn cynnig gwerth ychwanegol ac yn atgyfnerthu cynllun Perthyn. Bydd modd hefyd i grwpiau cymunedol nad ydynt yn rhan o rhwydwaith Perthyn ymgeisio am gymorth grant os gallant ddangos fod eu prosiectau yn cyd fynd â blaenoriaethau'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg¹⁸

¹⁶ Cyfarfod y Pwyllgor, 18 Ionawr 2023, paragraff 194

¹⁷ Cyfarfod y Pwyllgor, 18 Ionawr 2023, paragraff 195

¹⁸ Cohebiaeth gan y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg, 19 Ionawr 2023

76. At hynny, rydym yn pryderu am yr effaith chwyddiannol ar weithgareddau cyfrwng Cymraeg a ddarperir gan lywodraeth leol – neu ar ei rhan – yn enwedig gweithgareddau i bobl ifanc. Un canlyniad posibl yw y gallai'r gost o fynd i weithgareddau allgyrsiol a chlybiau ar ôl ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg gynyddu. Mae'r gweithgareddau hyn yn hollbwysig er mwyn rhoi cyfleoedd i blant o gefndiroedd Cymraeg a di-Gymraeg ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ysgol. Mewn ambell ran o Gymru, mae'n debygol y bydd rhai rhieni'n gallu ysgwyddo'r baich costau ychwanegol, ond rydym yn pryderu y bydd y costau uwch yn ormod i lawer. Pryderwn y bydd hyn yn golygu y bydd y rhai mwyaf difreintiedig yn colli cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar sail cost.

77. Rydym o'r farn, os yw Llywodraeth Cymru o ddifri am gyrraedd targed Cymraeg 2050, y bydd angen iddi sicrhau bod y sefydliadau hynny sy'n cefnogi cyfleoedd cyfrwng Cymraeg yn y gymuned yn cael adnoddau a chefnogaeth ddigonol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd difreintiedig a'r mannau hynny lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad mor eang, yn enwedig o ystyried y pwysau costau a berir gan chwyddiant a chynnydd mewn costau byw. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu lefel y cyllid sydd ei angen i gynnal a gwella'r cynnig presennol sydd ar gael.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu lefel y cyllid sydd ei angen er mwyn cynnal a gwella cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch cyfrwng Cymraeg mewn cymunedau lleol ledled Cymru o ganlyniad i gostau byw uwch. Dylai'r adolygiad hwn hefyd ystyried effaith gwariant yn ogystal â'r swm a ddarparwyd.

Cyllid refeniw i ysgolion

78. Yn ystod y sesiwn graffu gyda'r Gweinidog, buom yn trafod cymorth cyllid refeniw parhaus ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd. Er ein bod yn hyderus bod gan awdurdodau lleol fynediad at y cyllid cyfalaf sydd ei angen i adeiladu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd, rydym yn pryderu nad yw cyllid refeniw parhaus i gefnogi datblygiad yr ysgolion newydd hynny bob amser yn ddigonol.

79. Clywsom nad oes cyllid penodol ar gael er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, ac mai mater i lywodraeth leol yw penderfynu sut y mae'n cynllunio cyllid addysg ac ysgolion yn lleol. Ni chawsom y sicrwydd angenrheidiol yn ystod y sesiwn graffu bod adnoddau digonol ar gael yn y cyd-destun hwn. Dyma alw ar y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg i ystyried sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi

awdurdodau lleol gyda chymorth refeniw ychwanegol ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd yn y dyfodol, ac ystyried pa gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen ar ysgolion cyfrwng Saesneg i symud ar hyd y continwmm ieithyddol ac ehangu ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Argymhelliad 9. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu sut y gall ddarparu cyllid refeniw ychwanegol penodol i gefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd unwaith eu bod wedi'u hagor. At hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai gefnogi ysgolion ymhellach yn y sector cyfrwng Saesneg i symud ar hyd y continwmm ieithyddol ac ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Cyllid i Gomisiynydd y Gymraeg

80. Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a oedd y dyraniad cyllidebol o £3.36 miliwn yn ddigon i alluogi'r Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau statudol. Bu codiad o £150,000 yng nghylideb y Comisiynydd ar gyfer 2023-24. Cadarnhaodd y Gweinidog fel a ganlyn:

*"mae cynnydd o 4 y cant wedi bod, sydd yn gyson â'r cynnydd i'r comisiynwyr eraill, ac fel ých chi'n dweud, pwrpas hynny yw sicrhau cyflogau staff. Mae hefyd dyraniad o ran cyfalaf, wrth gwrs, ar gyfer technoleg gwybodaeth yn y rhan fwyaf. Rwyf yn hyderus bod y gyllideb yn caniatáu'r comisiynydd i wneud ei gwaith."*¹⁹

81. Yn unol â'n dealltwriaeth o flaenoriaethau'r Comisiynydd newydd, cadarnhaodd y Gweinidog fod pwyslais y Comisiynydd "yn glir iawn ar gynyddu defnydd [o'r Gymraeg]". O ystyried y pwyslais y mae'r Comisiynydd presennol wedi'i roi ar hybu'r iaith cyn rheoleiddio, ailgadarnhaodd y Gweinidog y bydd y gyllideb yn ddigonol. Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg, drwy osod dyletswyddau ar sefydliadau, a hybu'r iaith drwy ddulliau eraill. Rydym yn pryderu pe bai her gyfreithiol sylweddol arall yn codi o ganlyniad i'r rôl reoleiddiol, y gallai hyn wasgu cyllideb gyfyngedig y Comisiynydd. Nid oes gan y Comisiynydd y cronfeydd wrth gefn a oedd ganddo ar un adeg, ar ôl lleihau ei falans cadarnhaol yn dilyn newidiadau i 'ffin y gyllideb' gyda Llywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol, bellach, i'r Comisiynydd gydymffurfio â therfyn balans arian parod

¹⁹ Cyfarfod y Pwyllgor, 18 Ionawr 2023, paragraff 222

o 5 y cant o'r cymorth grant blynyddol ym mhob chwarter ([gweler tudalen 27 o Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2021-22](#)).

82. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi gorfod ymyrryd a chefnogi heriau cyfreithiol costus (lle buont yn llwyddiannus). Rydym yn pryderu ynghylch yr effaith y gallai achosion cyfreithiol o'r fath ei chael ar gyllideb y Comisiynydd a byddem yn poeni pe bai ariannu achosion o'r fath yn cael ei wneud ar draul gwaith arall; neu'n waeth byth, heb ei ariannu o gwbl. Fel y cyfryw, dyma argymhell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y bydd yn cefnogi Comisiynydd y Gymraeg gyda chyllid ychwanegol pe bai angen.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y bydd yn rhoi cymorth ariannol ychwanegol i Gomisiynydd y Gymraeg lle bo angen, er enghraifft i gefnogi achosion cyfreithiol costus na ellid eu rhagweld.

Ein barn ni

83. Mae ffigurau'r [cyfrifiad](#) – a gyhoeddwyd ar 6 Rhagfyr 2022 – yn siomedig iawn. Cadarnhaodd y data y bydd yn cymryd amser hir – a rhaglen barhaus o gefnogaeth – i wrthdroi gwerth degawdau o ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Rydym yn derbyn y bydd cynnydd yn y gyllideb a gyflwynir yn y flwyddyn ariannol gyfredol yn helpu, ond mae llawer mwy i'w wneud.

84. Fodd bynnag, cyn gwneud argymhellion pellach ar y mater hwn, mae angen inni ystyried yr holl ddata o Gyfrifiad 2021; ac nid oedd rhai ohonynt wedi'u cyhoeddi ar adeg ystyried yr adroddiad hwn. Rydym wedi cytuno y byddwn yn dychwelyd at y mater hwn yn y dyfodol agos pan fydd gennym well dealltwriaeth o'r hyn sydd angen ei roi ar waith i gefnogi targedau Cymraeg 2050 yn well.

85. Yn y cyfamser, rydym o'r farn y gallai'r argymhellion yr ydym wedi'u cyflwyno gynorthwyo i gyfyngu ar ostyngiadau pellach yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y tymor byr, a chefnogi twf yn y tymor hwy.